

# Cylchlythyr | Circular

## Ymgynghoriad ar Fwrsariaethau Cymhelliant Graddau Meistr a Addysgir i Ôl-raddedigion 2019/20

**Dyddiad:** 30 Gorffennaf 2019  
**Cyfeirnod:** W19/24HE  
**At:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
Penaethiaid colegau addysg bellach a ariennir yn  
uniongyrchol yng Nghymru  
**Ymateb erbyn:** 09 Awst 2019  
**Cyswllt:** Enw: Gemma Stephens  
Ffôn: 029 2085 9642  
E-bost: [finance@hefcw.ac.uk](mailto:finance@hefcw.ac.uk)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ynghylch cynigion CCAUC ar gyfer cynllun bwrsariaethau newydd i ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio graddau Meistr yng Nghymru mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a phynciau'n gysylltiedig â meddygaeth ac/neu i ddilyn gradd Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2019/20.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch  
mewn fformat hygyrch arall,  
anfonwch e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Drwy'r ymgynghoriad hwn gofynnir am sylwadau ynghylch cynigion CCAUC ar gyfer cynllun bwrsariaethau newydd i ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio graddau Meistr yng Nghymru mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a phynciau'n gysylltiedig â meddygaeth ac/neu i ddilyn gradd Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2019/20. Mae'n amlinellu cefndir cynigion CCAUC ac yn gofyn nifer o gwestiynau. Byddwn yn defnyddio'r atebion i'r cwestiynau hynny i lywio, datblygu a mireinio'r trefniadau terfynol.

## Y Cefndir

2. Cyhoeddwyd y cynllun yn natganiad Llywodraeth Cymru i'r wasg, [Bwrsariaethau newydd ar gyfer ôl-raddedigion yng Nghymru](#) ar 26 Mehefin 2019. Nod y cynllun yw cynyddu nifer y gradddedigion o Gymru sy'n aros yng Nghymru, neu'n dychwelyd i'r wlad i ddilyn gradd Meistr mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg neu feddygaeth, a elwir hefyd yn bynciau 'STEMM'. Bydd cyllid ychwanegol hefyd ar gael i ddilyn gradd Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy'r cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n anelu i gynyddu'r gyfran o fyfyrwyr graddau Meistr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru i 80%. Mae'r fwsariaeth ychwanegol ar gyfer ôl-raddedigion cyfrwng Cymraeg yn bwysig er mwyn sicrhau bod y gweithlu Cymraeg yn parhau i ddatblygu, a bydd yn cyfrannu at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn darparu'r cyllid hwn i CCAUC o dan adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac wedi cadarnhau y bydd £1.3 miliwn o'r cyllid yn cael ei ddyrannu ym mlwyddyn ariannol 2019-20 er mwyn ariannu graddau o fis Awst 2019 ymlaen. Bwriedir cynnal y cynllun fel peilot tair blynedd, ac yn rhan o'n gwaith cynllunio rydym yn tybio y daw mwy o gyllid ar gael.
4. Gan na all CCAUC ariannu myfyrwyr yn uniongyrchol, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC ddarparu cyllid drwy ddarparwyr addysg uwch Cymru. Bydd y cyllid wedi'i drefnu mewn modd sy'n galluogi CCAUC i ddarparu'r cyllid i ddarparwyr ar gyfer darpariaeth cyrsiau Meistr ôl-raddedig. Yn rhan o'r telerau ac amodau bydd hi'n ofynnol defnyddio'r cyllid i ddarparu bwrsariaethau i fyfyrwyr graddau Meistr, y rhai sy'n astudio'n rhan-amser ac yn llawnamser.

## Dull arfaethedig o ddyrannu cyllid

5. Mae CCAUC yn cynnig dyrannu cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20 i ddarparwyr ar ffurf cyfran o'r niferoedd o raddau Meistr a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20 yn y pynciau STEMM perthnasol, a'r rhai sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd nifer y graddau Meistr amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20 yn

seiliedig ar gyfran y rhai sy'n ymgeisio am gyrsiau ôl-raddedig a addysgir (PGT) sy'n fyfyrwyr Meistr, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2017/18, a nifer yr ymgeiswyr y rhagwelir iddynt ddilyn cwrs PGT ym mlwyddyn academiaidd 2019/20 a gymerwyd o'r rhagolygon niferoedd myfyrwyr a gawsom gan ddarparwyr ym mis Gorffennaf 2018.

6. Bydd y cyfrannau sy'n astudio pynciau STEMM ac sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2017/18 yn cael eu cymhwyso i'r amcangyfrifon. Ystyrir mai'r rhai sy'n astudio pynciau STEMM fydd y rhai y mae eu codau System Cyd-godio Pynciau Academiaidd (JACS) ar gyfer pwnc eu cwrs yng nghategoriâu pwnc academiaidd CCAUC: 1 Meddygaeth a Deintyddiaeth; 2 Pynciau a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth; 3 Gwyddoniaeth; 4 Peirianeg a thechnoleg; a 6 Gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura. Y rhai yr ystyrir eu bod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg fydd rhai sy'n dilyn 40 credyd neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg, gan astudio unrhyw bwnc.
7. I ddibenion dyrannu cyllid, ystyrir bod myfyrwyr cymwys yn preswyllo yng Nghymru ac yn yr UE, yn astudio yng Nghymru, nad ydynt wedi'u hariannu drwy Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)/drwy'r GIG, sydd yn newydd-ddyfodiaid, sy'n astudio'n llawnamser neu'n rhan-amser. Wrth fodelu, rhagdybiwn fod myfyrwyr amser llawn yn astudio am flwyddyn a myfyrwyr rhan-amser yn astudio dros gyfnod o ddwy flynedd. Pan fydd myfyriwr yn dilyn cwrs sy'n cynnwys pwnc STEMM a phwnc nad yw'n STEMM, tybir na ddylid ond talu'r fwsariaeth am y gyfran o'r cwrs sydd yn STEMM.
8. Bydd y data a echdynnir i gyfrifo'r dyraniadau yn cael eu cyflwyno i'w gwirio gan ddarparwyr. Er mwyn gallu cadarnhau'r cyllid hwn cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, bydd y broses ddilysu yn cael ei chynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.
9. Mae gwaith modelu yn cael ei gyflawni yn seiliedig ar neilltuo oddeutu £2k fesul Gradd Meistr STEMM ac oddeutu £1k fesul Gradd Meistr cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, bydd cyfanswm y cyllid sydd ar gael a nifer y myfyrwyr a gaiff eu cynnwys wrth gyfrifo'r dyraniadau yn effeithio ar y ffigur gwirioneddol a ddyrennir i bob myfyriwr. Mater i ddarparwyr fydd asesu cymhwystra myfyrwyr unigol i dderbyn bwrsariaeth, ac i ddyfarnu'r bwrsariaethau i fyfyrwyr unigol ar gyfradd briodol.

**Cwestiwn 1: A yw'r dull a gynigir ar gyfer dyrannu cyllid i ddarparwyr yn achosi unrhyw broblemau i chi? Os felly, amlinellwch y problemau a chynnig dulliau eraill lle bo'n briodol.**

**Cwestiwn 2: A fydd y dull arfaethedig o ddyrannu yn achosi unrhyw ganlyniadau anfwriadol?**

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw faterion ymarferol, o fewn darparwyr, a fyddai'n peri bod y dull dyrannu arfaethedig, a'r disgwyliad i ddarparwyr ddsbarthu'r cyllid, yn broblematic?**

**Cwestiwn 4: A allwch chi ragweld unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r cynnig hwn a'r modd y mae'n cyd-fynd â threfniadau eraill tebyg o fewn darparwyr?**

### **Cynnig am gyllid bwrsariaeth oddi wrth CCAUC ym mlwyddyn academaidd 2019/20**

10. Fel yr amlinellir ym mharagraff 3, £1.3 miliwn yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Hyd yma, dengys ein gwaith modelu:
  - Fod angen cyfanswm o oddeutu £3.5 miliwn ar gyfer bwrsariaethau i ymgeiswyr newydd ym mlwyddyn academaidd 2019/20;
  - Mae hyn yn cynnwys y fwsariaeth lawn ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a fydd yn parhau hyd blwyddyn academaidd 2020/21;
  - Ac eithrio'r taliadau a fyddai'n cael eu gwneud ym mlwyddyn academaidd 2020/21 i fyfyrwyr rhan-amser a fyddai'n parhau â'u cwrs, amcangyfrifwn y bydd angen oddeutu £2.8 miliwn i ariannu bwrsariaethau ym mlwyddyn academaidd 2019/20;
  - Byddai £1.3 miliwn yn dod o gyllideb blwyddyn ariannol 2019-20 a thybir y bydd £1.5 miliwn yn dod o gyllideb blwyddyn ariannol 2020-21, sydd yn dal heb ei chyhoeddi;
  - Yn ogystal â hynny, i rai sy'n parhau i flwyddyn academaidd 2020/21, thybir y bydd £0.7 miliwn yn dod o gyllideb blwyddyn ariannol 2020-21.
11. Ein cynnig yw y bydd y dyraniad cyllid gan CCAUC yn cael ei neilltuo i'r darparydd er mwyn datblygu dull dosbarthu o fewn ei ddarparydd, i ddyfarnu bwrsariaethau i fyfyrwyr sy'n preswyllo yng Nghymru a'r UE sy'n dilyn cwrs Meistr STEMM neu gwrs Meistr drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/20, gan ddefnyddio'r meini prawf yn gysylltiedig â phynciau a'r elfen cyfrwng Cymraeg i ddyrannu'r cyllid. Wrth ddatblygu dull dosbarthu, bydd yn rhaid i ddarparwyr fod yn ystyriol o unrhyw gyrsiau perthnasol y gallent fod yn eu breinio. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y ceir dyfarnu bwrsariaethau cymhellant yn ychwanegol at unrhyw fwsariaethau eraill a gynigir.
12. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y boblogaeth gymwys yr un peth â'r boblogaeth sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer benthyciadau a nodir yn [Rheoliadau Benthyciadau Gradd Meistr Ôl-raddedig 2017](#), fel y'u diwygiwyd yn 2018 yn [Rheoliadau Benthyciadau Gradd Meistr Ôl-raddedig \(Diwygio\) 2018](#). Bydd yn cynnwys rhai rhaglenni ymchwil os yw'r ymchwil honno'n arwain at radd Meistr, ond ni fydd yn cynnwys, er enghraifft, Doethuriaethau, cyrsiau Meistr integredig na Diplomâu Ôl-raddedig.
13. Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i CCAUC hefyd yn cyfeirio at yr angen i CCAUC gydweithio â swyddogion o Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gallai'r Gweinidog ddarparu cymorth grant ychwanegol i fyfyrwyr dros

60 oed sy'n preswyllo yng Nghymru sydd am astudio gradd Meistr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Deallir y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu fel mesur dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn unig, gan bontio'r cyfnod cyn i drefniadau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ysgwyddo'r gefnogaeth hon i fyfyrwyr cymwys. Gan hynny, yn gysylltiedig â'r cynigion am fwrsariaethau Meistr a gyflwynir yma, rydym yn disgwyl y bydd y bwrsariaethau yn cael eu dyrannu i fyfyrwyr waeth beth fo'u hoedran, os yw'r holl feini prawf cymhwystra eraill wedi'u bodloni.

14. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20, bydd CCAUC yn gofyn am adroddiad monitro fel bod pob darparydd yn cadarnhau bod yr holl gyllid wedi'i wario'n unol â'r telerau a'r amodau fu'n sail ar gyfer dyrannu'r cyllid, hyd fod y bwrsariaethau wedi'u dyfarnu'n unol â'r meini prawf cymhwystra a amlinellir uchod. Gofynnir am adroddiadau tebyg mewn blynyddoedd dilynol tra bo'r cynllun yn weithredol. Byddwn hefyd yn monitro nifer y myfyrwyr a gaiff eu recriwtio i ddilyn cyrsiau Meistr STEMM a chyfrwng Cymraeg, ac efallai'n penderfynu addasu'r cyllid fel bo'n briodol os bydd y nifer hwnnw'n is na'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cyllid.

**Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw farn ynghylch y meini prawf cymhwystra a ddisgrifir ym mharagraffau 11 i 13, neu'r disgwyliad y bydd y darparydd yn datblygu dull dosbarthu mewnol er mwyn pennu cymhwystra a dyfarnu bwrsariaethau?**

**Cwestiwn 6: Bwriedir i'r cyllid hwn fod yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Os cytunir ar gyllid ar gyfer ymgeiswyr ym mlwyddyn academaidd 2020/21, erbyn pa ddyddiadau tyngedfennol y bydd angen i ddarparwyr gael cadarnhad o'r manylion ariannol, er mwyn caniatáu digon o amser i farchnata a gweithredu'r trefniadau?**

**Cwestiwn 7: A oes unrhyw faterion pellach yn gysylltiedig â'r cynigion hyn am gynllun bwrsariaethau yr hoffech dynnu ein sylw atynt?**

**Cwestiwn 8: A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#), yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio?**

**Cwestiwn 9: Beth fydd effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y cynigion ar y canlynol:**

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 10: A ellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:**

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

## Ymatebion

15. Gofynnir ichi anfon eich sylwadau drwy e-bost at Gemma Stephens, Rheolwr Cyllido ([finance@hefcw.ac.uk](mailto:finance@hefcw.ac.uk)) erbyn **9 Awst 2019**. Er hwylustod, ceir crynodeb o'r cwestiynau a ofynnwyd yn Atodiad A.

## Gwybodaeth bellach

16. Rhannwyd ein cynnig cychwynol â swyddogion o Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'u cynlluniau hwy ar gyfer y bwrsariaethau hyn, ac mae'r Gweinidog wedi cytuno y dylem gynnal ymgynghoriad ar ein cynigion.
17. Dylid anfon unrhyw ymholiadau at Gemma Stephens (029 2085 9642; [finance@hefcw.ac.uk](mailto:finance@hefcw.ac.uk)).

## Asesu effaith ein polisiau

18. Rydym wedi cynnal asesiad effaith er mwyn helpu i amddiffyn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisiau ar y Gymraeg ac ar ddarpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

### Crynodeb o'r Cwestiynau

Cwestiwn 1: A yw'r dull a gynigir ar gyfer dyrannu cyllid i ddarparwyr yn achosi unrhyw broblemau i chi? Os felly, amlinellwch y problemau a chynnig dulliau eraill lle bo'n briodol.

Cwestiwn 2: A fydd y dull arfaethedig o ddyrannu yn achosi unrhyw ganlyniadau anfwriadol?

Cwestiwn 3: A oes unrhyw faterion ymarferol, o fewn darparwyr, a fyddai'n peri bod y dull dyrannu arfaethedig, a'r disgwyliad i ddarparwyr ddsbarthu'r cyllid, yn broblematig?

Cwestiwn 4: A allwch chi ragweld unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r cynnig hwn a'r modd y mae'n cyd-fynd â threfniadau eraill tebyg o fewn darparwyr?

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw farn ynghylch y meini prawf cymhwystra a ddisgrifir ym mharagraffau 11 i 13, neu'r disgwyliad y bydd y darparwyr yn datblygu dull dosbarthu mewnol er mwyn pennu cymhwystra a dyfarnu bwrsariaethau?

Cwestiwn 6: Bwriedir i'r cyllid hwn fod yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Os cytunir ar gyllid ar gyfer ymgeiswyr ym mlwyddyn academaidd 2020/21, erbyn pa ddyddiadau tyngedfennol y bydd angen i ddarparwyr gael cadarnhad o'r manylion ariannol, er mwyn caniatáu digon o amser i farchnata a gweithredu'r trefniadau?

Cwestiwn 7: A oes unrhyw faterion pellach yn gysylltiedig â'r cynigion hyn am gynllun bwrsariaethau yr hoffech dynnu ein sylw atynt?

Cwestiwn 8: A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#), yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio?

Cwestiwn 9: Beth fydd effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y cynigion ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

Cwestiwn 10: A ellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?